Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2025-26

www.llyw.cymru/cyllideb-derfynol-2025-2026

Mae’r Gyllideb Derfynol hon a gyhoeddwyd ar 20 Chwefror 2025 yn cynnwys y newidiadau sydd wedi eu gwneud ers cyhoeddi’r Gyllideb Ddrafft ar 10 Rhagfyr 2024.

Mae’n cynnwys nifer o ymrwymiadau cyllid a pholisi y cytunwyd arnynt gyda Jane Dodds AS, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Mae’r cytundeb cyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Jane Dodds AS yn canolbwyntio ar flaenoriaethau ar y cyd ac yn sicrhau mwy na £100m o arian ychwanegol ar gyfer pethau fel gofal plant, trafnidiaeth ac awdurdodau lleol.

Ar 4 Mawrth 2025 cymeradwywyd y Gyllideb Derfynol gan fwyafrif yr aelodau yn Senedd Cymru.

# Mae gennym gyllideb o **£26bn** ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

**Mae ein cynlluniau gwario yn cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol ein Prif Weinidog, Eluned Morgan AS.**


- Iechyd da
- Swyddi a Thwf Gwyrdd
- Cyfle i bob teulu
- Cysylltu cymunedau


| Gwariant fesul portfolio yr Ysgrifenyddion Cabinet | Cyllid Refeniw (£m) | % Refeniw | Cyllid Cyfalaf (£m) | % Cyfalaf | % Cyfanswm Refeniw a Chyfalaf |
|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 11,976 | 55.62 | 619 | 17.76 | 50.34 |
| Tai a Llywodraeth Leol | 5,483 | 25.47 | 1,269 | 36.41 | 26.99 |
| Addysg | 1,801 | 8.36 | 373 | 10.70 | 8.69 |
| Trafnidiaeth | 662 | 3.07 | 529 | 15.18 | 4.76 |
| Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 580 | 2.69 | 317 | 9.10 | 3.59 |
| Yr Economi, Ynni a Chynllunio | 465 | 2.16 | 344 | 9.87 | 3.23 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 139 | 0.65 | 19 | 0.55 | 0.63 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 427 | 1.98 | 15 | 0.43 | 1.77 |
| | 21,533 | 100 | 3,485 | 100 | 100 |

*Nid yw'r tabl hwn yn cynnwys holl feysydd gwariant y llywodraeth.


Cyllid **‘Refeniw’** yw’r arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i dalu cyflogau, rhedeg ysgolion ac ysbytai a helpu busnesau ac elusennau sy’n helpu pobl a gofalu am ein hamgylchedd.

Cyllid **‘Cyfalaf’** yw’r arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei wario ar adeiladau, tai, ffyrdd, prosiectau ynni fel tyrbinau gwynt, ysgolion ac ysbytai newydd.


Yr Economi,
Ynni a Chynllunio
3.23%
Cyfiawnder
Cymdeithasol
0.63%
Newid Hinsawdd a
Materion Gwledig
3.59%
Gwasanaethau
Canolog a Gweinyddu
1.77%
Trafnidiaeth
4.76%
Addysg
8.69%
Cyfanswm
Refeniw a
Chyfalaf
(£m)
Iechyd a
Gwasanaethau
Cymdeithasol
50.34%
Tai a
Llywodraeth Leol
26.99%
% cyfanswm gwariant
Llywodraeth Cymru



Yr Economi, Ynni a Chynllunio
£465
2.16%
Cyfiawnder Cymdeithasol
£139
0.65%
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
£580
2.69%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu
£427
1.98%
Trafnidiaeth
£662
3.07%
Addysg
£1,801
8.36%
Cyllid Refeniw (£m)
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
£11,976
55.62%
Tai a Llywodraeth Leol
£5,483
25.47%
Cyllid (£m)
% o'r cyfanswm


Cyfiawnder Cymdeithasol
£19
0.55%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu
£15
0.43%
Yr Economi, Ynni a Chynllunio
£344
9.87%
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
£619
17.76%
Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
£317
9.10%
Cyllid Cyfalaf (£m)
Trafnidiaeth
£529
15.18%
Tai a Llywodraeth Leol
£1,269
36.41%
Addysg
£373
10.70%
Cyllid gan gynnwys trafodion ariannol (£m)
% o'r cyfanswm

# Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae dros 55% o gyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei wario ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn buddsoddi £496m arall mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn 2025-26, i helpu pobl i fyw bywydau annibynnol ac i leihau amseroedd aros ysbytai.

Rydym yn helpu i gefnogi awdurdodau lleol i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal. Rydym yn ehangu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, yn cyflwyno mwy o leoedd hyfforddi meddygol a deintyddol, yn gwella gwasanaethau ar gyfer iechyd menywod ac yn buddsoddi mewn technoleg ddigidol ar gyfer y GIG.

Byddwn yn gwario £30m yn fwy ar ofal cymdeithasol i gefnogi pobl i adael yr ysbyty yn gynt. Byddwn yn gwario £50m yn fwy ar gynyddu darpariaeth gofal plant fforddiadwy.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Tai a Llywodraeth Leol

Mae ein hawdurdodau lleol dan bwysau oherwydd chwyddiant uchel, biliau ynni sy'n codi'n aruthrol a chynnydd yn y galw am wasanaethau. Rydym yn rhoi arian ychwanegol iddynt i'w helpu i gadw biliau'r dreth gyngor a biliau ardrethi busnes mor isel â phosibl.


Bydd busnesau Cymru yn talu llai na'r disgwyl ar ardrethi busnes yn 2025-26, gyda chap o 1% yn lle 1.7%. Mae busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch yn cael 40% i ffwrdd, hyd at £110,000 y busnes.

Rydym yn darparu rhagor o gyllid i awdurdodau lleol i helpu i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, gan gynnwys ysgolion. Rydym yn adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol i'w rhentu erbyn mis Mawrth 2026 ac yn rhoi arian yn y cynllun Cymorth i Brynu i helpu pobl i fod yn berchen ar eu cartrefi. Rydym yn buddsoddi mewn addasu cartrefi pobl fel y gall pobl hŷn a phlant ac oedolion anabl fyw yn fwy cyfforddus.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Addysg

Rydym yn buddsoddi rhagor o arian mewn ysgolion eleni i adeiladu dyfodol mwy disglair i ddisgyblion, i gynyddu eu presenoldeb a sicrhau gwell canlyniadau mewn ysgolion. Bydd cymorth ychwanegol ar gyfer hyfforddi athrawon, cwricwlwm newydd ac i blant.

Mae bwyta'n iawn yn bwysig ar gyfer dysgu, rydym yn gwario mwy i sicrhau bod prydau ysgol am ddim yn cael eu darparu i bob plentyn cynradd. Mae rhagor o arian yn cael ei ddarparu i gefnogi myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd arian yn cael ei wario i wella adeiladau ysgolion.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Yr Economi, Ynni a Chynllunio

Byddwn yn helpu pobl ifanc i wella eu sgiliau, i gael swyddi a chynyddu eu cyfleoedd mewn bywyd. Bydd ein rhaglen brentisiaethau yn creu 100,000 o brentisiaethau erbyn mis Mawrth 2026. Rydym yn cefnogi ein treftadaeth a'n diwylliant gyda chyllid ychwanegol ar gyfer cyfleusterau chwaraeon ac i Cadw. Rydym yn parhau i ariannu sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon i bobl.

Rydym yn rhoi rhagor o arian i brosiectau ynni adnewyddadwy i leihau allyriadau carbon cartrefi a busnesau. Bydd ein Benthyciadau Busnes Gwyrdd yn cefnogi busnesau bach a chanolig i fuddsoddi mewn bod yn fwy effeithlon o ran ynni. Rydym yn parhau i ariannu ein hymdrechion ailgylchu.

Er mwyn helpu'r economi, byddwn yn cyflymu penderfyniadau cynllunio ynghylch adeiladau newydd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael rhagor o arian i'w helpu i wneud penderfyniadau yn gyflymach am y defnydd o dir ac am adeiladu pethau ar y môr.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Yn 2019, gwnaethom ddatgan argyfwng hinsawdd. Ynghyd â'n partneriaid rydym yn cefnogi pobl a chymunedau Cymru i weithredu o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur.

Rydym yn gweithio i atal perygl llifogydd a gwella ansawdd dŵr, a byddwn yn darparu cymorth ar gyfer adfer natur, ffermio, coedwigaeth a'r diwydiant pren.

Mae diogelu cymunedau yn flaenoriaeth ac rydym yn gwario rhagor o arian i wneud tomenni glo yn ddiogel.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector amaethyddol i ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer ein ffermwyr. Rydym yn creu Coedwig Genedlaethol Cymru.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Trafnidiaeth

Mae angen i’n sector trafnidiaeth gyhoeddus allu cefnogi pobl ledled Cymru a helpu i fynd i’r afael â newid hinsawdd. Rydym yn rhoi rhagor o gyllid i rwydweithiau bysiau ac yn gwella rheilffyrdd.

Rydym yn creu cronfa gwella ffyrdd i helpu i drwsio ein rhwydwaith ffyrdd a lleihau tyllau mewn ffyrdd a’u hatal rhag digwydd.

Rydym am ei gwneud hi’n haws i bobl ddewis ffyrdd o deithio sy’n gynaliadwy ac yn ecogyfeillgar. Rydym yn buddsoddi mewn rhagor o leoedd i bobl wefru ceir trydan a gwneud ein strydoedd yn fwy diogel.

Byddwn yn ariannu cynllun peilot fydd yn golygu y bydd pobl ifanc 21 oed a iau yn talu £1 ar gyfer taith unffordd ar y bws.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Cyfiawnder Cymdeithasol

Rydym wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol sy'n darparu taliadau arian parod brys i'r bobl fwyaf anghenus.

Rydym yn rhoi rhagor o arian i fynd i'r afael â thlodi bwyd, tlodi plant ac yn ehangu nifer y Canolfannau Clyd i ddarparu lleoedd diogel a chynnes mewn cymunedau lleol.

Rydym yn gwario rhagor o arian i helpu i atal cam-drin domestig ac i roi cymorth a chyngor i ddioddefwyr. Rydym yn rhoi rhagor o arian i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a hyrwyddo hawliau dynol.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Mae cyllid i'r gyllideb Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn talu ar gyfer staff Llywodraeth Cymru, TG ac ar gyfer rhedeg adeiladau Llywodraeth Cymru.

Mae hefyd yn cynnwys cyllid i'r Gymraeg. Bydd y gyllideb ar gyfer Cymraeg 2050 yn cynyddu yn 2025-26 i'n cefnogi i gyrraedd ein targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bydd rhywfaint o'r cyllid hwn yn mynd i gefnogi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cyfanswm cyllid refeniw




Cyfanswm cyllid cyfalaf



# Cliciwch isod er mwyn gweld holl ddogfennau'r Gyllideb Derfynol

www.llyw.cymru/**cyllideb-derfynol-2025-2026**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51150, ISBN digidol 978-1-83715-504-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg